Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	26 Ionawr 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Julian Thompson Hill / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Adolygiad Dilynol Archwilio Mewnol – Rheoli Prosiect Adeilad y Frenhines

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar weithredu'r cynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Prosiect Adeilad y Frenhines, a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2021.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut y mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau wrth Reoli Prosiect Adeilad y Frenhines yn unol â'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Sgôr sicrwydd isel a roddwyd yn yr adroddiad, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiad cynnydd. Dyma'r ail adroddiad cynnydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu'r archwiliad, ac yn penderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau diweddaru pellach ynglŷn â'r cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Sgôr sicrwydd isel a roddwyd yn ein hadolygiad o Reoli Prosiect Adeilad y Frenhines, sef adroddiad dyddiedig Ionawr 2021. Nododd yr adolygiad dilynol cyntaf y gwnaed cynnydd mewn sawl maes ers ein hadolygiad diwethaf, gydag wyth o'r deuddeg cam gweithredu wedi eu gweithredu'n llawn. Ar sail canlyniadau'r adolygiad dilynol cyntaf, rhoddwyd sgôr sicrwydd canolig.

4.2. Cynhaliwyd adolygiad dilynol pellach i ganfod faint o gynnydd a wnaed gyda'r camau gweithredu oedd heb eu cymryd, lle effeithiwyd ar y cynnydd gan bwysau eraill ar y gwasanaeth a'r ffaith bod y system rheoli prosiect yn cael ei huwchraddio yn dilyn proses dendro ddiweddar. Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o'n hail adolygiad dilynol.

4.3. Ar sail canlyniadau ein hadolygiad dilynol, rydym yn parhau i roi sgôr sicrwydd canolig. Mae trydydd adolygiad dilynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2022.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.